

Mae fersiwn Saesneg a fersiwn Hawdd ei Deall o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Bwlio ac Aflonyddu

Cwmpas a Diben y Polisi

Yn CAVC, rydym yn cydnabod effaith sylweddol profiadau niweidiol plentyndod ar lesiant a datblygiad unigolion. Rydym wedi ymrwmo i fabwysiadu dull seiliedig ar drawma yn ein polisiâu a'n harferion i greu amgylchedd diogel, cefnogol ac adferol i bawb.

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn cymryd bwlio ac aflonyddu o ddifrif, ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau ein bod yn goleg lle caiff pawb eu trin yn gyfartal ac yn barchus. Diben y polisi hwn yw sicrhau bod yr ethos hwn yn rhan annatod o'r Coleg a bod yr holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd ymddygiadau sy'n ei gefnogi. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cyfeirio at unigolion pan fyddant yn y Coleg a'r tu allan i'r Coleg, ac mae'n cynnwys defnyddio'r rhyngwrdd a dyfeisiau cyfathrebu electronig fel e-bost, ffonau symudol, consolau gemau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol etc, ni waeth pwy sy'n berchen ar y ddyfais gyfathrebu.

Diffiniadau o Fwlio ac Aflonyddu

Gall bwlio gael ei ddisgrifio fel ymddygiad sarhaus, brawychus, maleisus neu enllibus, cam-drin neu gamddefnyddio pŵer drwy ddulliau sy'n tanseilio, codi cywilydd, pardduo neu frifo'r derbynnydd.

Mae aflonyddu yn cynnwys ymddygiad ailadroddus digroeso, **neu** o natur rywiol, sydd â'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas unigolyn (boed hynny'n fwriadol ai peidio) a chreu amgylchedd brawychus, gwrthwynebus, diraddiol, bychanol neu sarhaus i'r unigolyn hwnnw.¹

Mae nifer o wahanol fathau o fwlio:

- *Emosiynol* – bychanu cyhoeddus, cau allan, poenydio drwy ymddygiad bychanol, megis drwy guddio eiddo, gwneud ystumiau bygythiol etc
- *Corfforol* - Gwthio, cicio, taro, dynnu neu unrhyw ddefnydd o drais
- *Geiriol* - Galw enwau, coegni, hel clecs, pryfocio

Gall bwlio hefyd gael ei gyfeirio at nodwedd benodol sy'n aml yn gysylltiedig â chydaddoldeb ac amrywiaeth:

- *Bwlio hiliol a chrefyddol* – digwyddiad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall, megis: cam-drin geiriol, galw enwau, jôcs hiliol, dynwared sarhaus; bygythiadau neu

¹ www.acas.org.uk (Hydref 2010)

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mehefin 2025

ymosodiadau corfforol; gwisgo bathodynau neu arwyddluniau pryfoclyd; dangos taflenni, comics neu gylchgronau hiliol; cymell eraill i ymddwyn mewn ffordd hiliol; graffiti neu sarhad ysgrifenedig arall, hyd yn oed yn erbyn bwyd, cerddoriaeth, gwisg neu arferion; gwrthod cydweithredu mewn gwaith neu chwarae.

- *Bwlio ar sail rhywedd* – yn erbyn rhywun o'r rhyw arall (neu rywun sy'n drawsryweddol), megis: galw enwau sarhaus; edrychiadau a sylwadau am ymddangosiad, dengarwch; cyffwrdd amhriodol a digroeso; ensyniadau a chynigion rhywiol; deunydd pornograffig, graffiti gyda chynnwys rhywiol; ymosodiad rhywiol.
- *Bwlio homoffobig/trawsffobig* – yn erbyn rhywun oherwydd ei gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rywedd (gall hyn ddigwydd hyd yn oed os nad yw pobl yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol, yn anneuaid, neu'n drawsryweddol) megis: defnyddio iaith homoffobig; edrychiadau a sylwadau am gyfeiriadedd rhywiol neu ymddangosiad; cam-drin geiriol drwy alw enwau; dynwared sarhaus; gwatwar ymddygiad neu ffordd rhywun o siarad; graffiti neu sarhad ysgrifenedig arall;
- *Bwlio sy'n gysylltiedig ag anabledd* – yn erbyn rhywun oherwydd anabledd neu anhawster dysgu, megis: galw enwau; sylwadau ar ymddangosiad; sylwadau o ran gallu a lefelau cyflawniad canfyddedig.
- *Seiberfwlio* – sef camddefnydd o dechnoleg, ac mae ar gynydd, a gall gynnwys pobl yn cael negeseuon bygythiol neu annymunol gan gyflawnwyr dienw o bosibl. Gall y camddefnydd posibl o dechnoleg gynnwys:
 - Ffonau Symudol h.y. negeseuon testun annymunol, cymryd a rhannu delweddau bychanol, recordio pobl eraill yn cael eu haflonyddu etc
 - Ystafelloedd Sgwrsio a Byrddau Negeseuon h.y. anfon negeseuon dienw neu fygythiol, grwpiau o bobl yn erlid unigolion etc
 - E-bost h.y. anfon negeseuon annymunol neu fygythiol, anfon cynnwys anaddas gan gynnwys delweddau, cael mynediad at e-bost rhywun arall etc
 - Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol h.y. yn postio sylwadau a delweddau annymunol, gwneud gwybodaeth breifat yn gyhoeddus etc

Ceir 3 math o aflonyddu (Deddf Cydraddoldeb 2010):

- Aflonyddu rhywiol, sef ymddygiad digroeso o natur rywiol
- Aflonyddu sy'n ymwneud â 'nodweddion gwarchodedig' penodol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Triniaeth lai ffafriol o ganlyniad i aflonyddu yn gysylltiedig â rhyw, aflonyddu rhywiol, neu ailbennu rhywedd

Yn yr un modd â bwlio, gall yr unigolyn sy'n cael ei aflonyddu deimlo diffyg parch, yn ofnus, wedi'i gywilyddio, wedi'i fygwth, ac wedi'i dansellio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Grŵp, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
- Holl aelodau staff o fewn y Grŵp.
- Holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mehefin 2025

- Ymwelwyr â'r Grŵp.

Datganiadau'r Polisi

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y Polisi hwn:

- Rhaid i bobl sy'n cael mynediad i Goleg Caerdydd a'r Fro gael eu **diogelu** rhag niwed.
- Mae'n rhaid i'n dysgwyr gael eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial tra yn y Coleg, a hynny mewn amgylchedd lle caiff eu **llesiant** ei gynnal fel eu bod yn teimlo'n dda ynddynt hwy eu hunain, ac yn parchu eraill.
- Yn y Coleg, bydd ein dysgwyr yn datblygu'r **sgiliau** sydd eu hangen arnynt i ddatblygu'n llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.
- Ymrwymiad i ddulliau adferol er mwyn sicrhau ein bod yn unioni niwed ac yn meithrin perthnasoedd.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Leihau bwllo ac aflonyddu o fewn amgylchedd y Coleg. Byddwn yn hysbysu ein holl ddysgwyr, staff, llywodraethwyr ac ymwelwyr, bod bwllo ac aflonyddu o bob math yn gwbl annerbyniol.
- Sefydlu gweithdrefnau i sicrhau yr ymdrinnir â bwllo ac aflonyddu yn gyflym ac yn gyson. Mae'n hollbwysig bod dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn gallu bod yn sicr y cânt eu cefnogi pan gaiff achosion o fwlio neu aflonyddu eu hadrodd.
- Ymgorffori mecanweithiau ar draws y Coleg i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer bwllo ac aflonyddu yn cael eu dileu e.e. systemau TG sy'n diogelu staff a myfyrwyr, rheoli perthnasoedd ar draws y Coleg yn seiliedig ar egwyddorion Dulliau Adferol, etc.
- Hysbysu cymuned y Coleg o'r gweithdrefnau hyn; i sicrhau bod pawb yn gwybod beth yw bwllo ac aflonyddu a'r hyn y dylent ei wneud os bydd achos o fwlio neu aflonyddu yn codi.
- Hyrwyddo dealltwriaeth o fwlio a goblygiadau bwllo. Gwneir hyn drwy hyfforddi staff, proses gyflwyno a thiwtorial i ddysgwyr, a defnyddio cyhoeddusrwydd a phosteri ar draws y coleg.
- Cofnodi a monitro achosion o fwlio ac aflonyddu er mwyn sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn a'n bod yn ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd o bryder neu dueddiadau.
- Adolygu effeithiolrwydd ein polisi a'n hymateb i fwlio yn rheolaidd a gweithredu ar unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mehefin 2025

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.
- Llywodraethwr sy'n gyfrifol am Ddiogelu yn cael ei benodi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro ac ymateb i achosion o fwlio ac aflonyddu o fewn eu meysydd. Mynd i'r afael ag ymddygiad y cyflawnwr honedig a darparu cymorth i'r dioddefwr.
- Sicrhau nad yw darpariaeth y cwricwlwm yn mynd yn groes i ofynion na nod y polisi hwn.

Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod gweithdrefnau disgyblu'r Coleg yn darparu ar gyfer diffyg cydymffurfio bwriadol neu fynych â'r Polisi Bwlio ac Aflonyddu Dysgwyr hwn.

Mae'r Pennaeth Ansawdd, Addysgu a Dysgu Cynorthwyol yn gyfrifol am:

- Ddarparu hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth neu ddrwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi gwrth-fwlio a'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am fwlio.
- Gweithredu yn unol â'r Polisi hwn os ydynt yn dyst i fwlio neu aflonyddu, neu'n dod i gyswllt yn gyfrinachol â dysgwyr sy'n cael eu bwlio neu eu haflonyddu, neu ddysgwyr sydd wedi bod yn dyst i gamau o'r fath. Sicrhau bod unrhyw honiadau yn cael eu trin o ddifrif ac yn cael eu hymchwilio'n drylwyr.
- Mynychu digwyddiadau CPD ar agweddau ar ddiogelu, bwlio ac aflonyddu.
- Cefnogi ein dysgwyr drwy unrhyw ymchwiliad i honiadau o fwlio ac/neu aflonyddu.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiynau sefydlu a thiworial i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg ac mewn perthynas â seiberfwlio pan fyddant y tu allan i'r Coleg hefyd.
- Rhoi adborth ar y polisi mewn grwpiau ffocws dysgwyr a thrwy gyfleoedd eraill.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mehefin 2025

Mae ymwelwyr yn gyfrifol am:

- Ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg ac mewn perthynas â seiberfwlio pan fyddant y tu allan i'r Coleg hefyd.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Deddf Cydraddoldeb 2010

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Nid oes goblygiadau Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'r polisi hwn. Ymdrinnir ag unrhyw oblygiadau Iechyd a Diogelwch gweithgareddau ymchwil gan weithdrefnau'r ymchwil.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r cyfrifoldeb sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, ac y dylent hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg, ac o ganlyniad ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Cyfeiriadau Polisiau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Polisi Diogelu Data
- Ansawdd
- Addysgu, Dysgu ac Asesu
- Diogelu
- Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr
- Disgyblu (Staff)
- Cwynion (Staff)

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mehefin 2025

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Diogelu Data
- Diogelu
- Bwlio ac Aflonyddu
- Cwynion

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo:	14 Medi 2012
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Safonau Ansawdd
Dyddiad adolygu:	1 Mehefin 2025

Rheolwr sy'n Gyfrifol:	Pennaeth Cynorthwyol, Taith y Dysgwr
Arweinydd Gweithredol:	Is-bennaeth, Taith y Dysgwyr ac Ansawdd
Hygyrch i Fyfyrrwyr:	Ydy

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Mehefin 2025